DOGFEN YMGYNGHOROL AR GYNNIG I GYHOEDDI MEINI PRAWF HSE AR GYFER DAD-DRWYDDEDU RHANNAU O SAFLEOEDD NEU SAFLEOEDD CYFAN A DRWYDDEDWYD O DAN DDEDDF SEFYDLIADAU NIWCLEAR 1965.

Cynnwys

DOGFEN YMGYNGHOROL

Cyflwyniad
Cefndir
Dyddiad cyhoeddi arfaethedig
Costau a manteision
Crosewir sylwadau

Atodiad 1 – Meini Prawf Arfaethedig HSE ar gyfer Dad-drwyddedu Safleoedd Niwclear

Datganiad Polisi Drafft

CYNNIG I GYHOEDDI MEINI PRAWF HSE AR GYFER DAD-DRWYDDEDU RHANNAU O SAFLEOEDD NEU SAFLEOEDD CYFAN A DRWYDDEDWYD O DAN DDEDDF SEFYDLIADAU NIWCLEAR 1965.

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Ddogfen Ymgynghorol hon yn ceisio sylwadau ar gynnig gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i gyhoeddi datganiad polisi sy'n nodi ei feini prawf ar gyfer dad-drwyddedu rhannau o safleodd, neu safleoedd cyfan a drwyddedwyd o dan Ddeddf Sefydliadau Niwclear 1965.

CEFNDIR

2. MAE HSE yn derbyn ceisiadau o dro i dro i ddad-drwyddedu rhannau o safleoedd, neu hyd yn oed safleoedd cyfan, a drwyddedwyd o dan Ddeddf Sefydliadau Niwclear 1965. Yn ôl y Ddeddf, cyn caniatáu dad-drwyddedu safle cyfan neu ran o safle, mae'r rhaid HSE gael ei fodloni "nad oes unrhyw berygl mwyach o ymbelydriadau ïoneiddio o unrhyw beth ar y safle, neu, yn ôl y galw, ar unrhyw ran o'r safle hwnnw".

3. Trafodwyd defnydd safleoedd niwclear y DU yn y dyfodol mewn ymgynghoriad diweddar gan y Llywodraeth ar bolisi dadgomisiynu niwclear[1]. Gan y disgwylir cynnydd mewn ceisiadau ar gyfer dad-drwyddedu, mae HSE yn ystyried ei bod yn 'amserol' cyhoeddi datganiad polisi yn nodi ei feini prawf ar gyfer dad-drwyddedu a dehongli 'dim perygl'. Bydd o gymorth i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau rheoliadol yn fwy tryloyw.

4. Bydd hefyd yn ddeunydd cyfeirio defnyddiol i unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth am ddad-drwyddedu. Gan y gallai rhyddhau darnau cynyddol o dir a drwyddedwyd yn flaenorol greu pryderon ymysg y cyhoedd ynghylch pa mor ddiogel yw defnyddio'r tir hwnnw at ddibenion eraill, cytunodd y Comisiwn Iechyd a Diogelwch y dylai HSE ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod y datganiad polisi a gyhoeddir yn dderbyniol i bawb.

DYDDIAD CYHOEDDI ARFAETHEDIG

5. Os bydd yr ymateb i gynnig yr ymgynghoriad hwn yn ffafriol ar y cyfan, disgwyliwn fabwysiadu a chyhoeddi'r datganiad polisi'n ffurfiol erbyn Hydref 2004.

COSTAU A MANTEISION

6. Bydd cyhoeddi'r datganiad polisi yn sefydlu sail gyson ac amddiffynadwy ar gyfer asesiadau HSE o geisiadau dad-drwyddedu, a bydd o gymorth i ddeiliaid trwydded

[1] 'Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Foderneiddio'r polisi ar gyfer Dadgomisiynu Cyfleusterau Niwclear y DU'. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng Tachwedd 2003 a Chwefror 2004. Ceir manylion ar wefan DTI: http://www.dti.gov.uk/nuclearcleanup/tl/tl-d.htm#decommissioning

niwclear wrth ddatblygu cynlluniau i adfer eu safleoedd. Bydd sicrhau gwell eglurder hefyd yn gyson â nod y Llywodraeth o annog rhagor o ddiddordeb gan y sector preifat o ran ymgymryd â'r gwaith o ddadgomisiynu ac adfer safleoedd treftadaeth niwclear y DU.

CROESEWIR SYLWADAU

7. Rydym eisoes wedi trafod y cynigion hyn â rhanddeiliaid wrth ddrafftio'r datganiad polisi ac rydym o'r farn eu bod yn dderbyniol yn gyffredinol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau gan y rhai yr effeithir arnynt gan y cynigion hyn, neu rai sydd â diddordeb ynddynt, erbyn 30 Gorffennaf 2004

Dylid anfon sylwadau at:

Jason Batt
Policy Group
Health and Safety Executive
Rose Court
Southwark Bridge
LONDON
SE1 9HS

Ffôn: 020 7717 6876
Ffacs: 020 7717 6095
E-bost: delicensing.policy@hse.gsi.gov.uk

Cwblhewch ac amgaewch y ffurflen hon gyda'ch ateb i'r Ddogfen Ymgynghorol hon.

A ydych yn cytuno â meini prawf arfaethedig HSE ar gyfer gwerthuso 'dim perygl' – yng nghyd-destun dad-drwyddedu – o dan y Ddeddf Sefydliadau Niwclear? **[Ticiwch un blwch]**	❑ Ydw	❑ Nac ydw

Os mai 'Nac ydw' oedd eich ateb, eglurwch pam nad ydych yn cytuno â meini prawf arfaethedig HSE. **[Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os dymunwch]**

……
……
……
……

MEINI PRAWF HSE AR GYFER DAD-DRWYDDEDU SAFLEOEDD NIWCLEAR

Cyflwyniad

1 Mae'r datganiad polisi hwn yn sail i'r ystyriaethau sydd angen eu pwyso a'u mesur gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) er mwyn:

a) Dad-drwyddedu safle niwclear trwyddedig, neu

b) Amrywio trwydded safle niwclear (er mwyn eithrio rhan o safle trwyddedig), neu

c) Terfynu cyfnod cyfrifoldeb deiliad trwydded

ar gyfer safleoedd a drwyddedwyd gan HSE o dan Ddeddf Sefydliadau Niwclear 1965, fel y'i diwygiwyd[1].

Amcan

2 Mae'r datganiad hwn yn sail i bolisi lle gall HSE sefydlu, yn sgîl ei asesiad ei hun, yn sgîl tystiolaeth deiliad y drwydded, a thrwy wybodaeth gan gyrff rheoliadol eraill sy'n ymwneud â'r safle (e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd neu Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban), nad yw'r ymbelydredd gweddilliol ar y safle yn beryglus - 'dim perygl'. Unwaith y bodlonir y meini prawf 'dim perygl' a bennwyd gan y Ddeddf Sefydliadau Niwclear, bydd HSE yn gallu gwneud penderfyniad ar ddad-drwyddedu y cyfan neu ran o safle, neu derfynu'r cyfnod cyfrifoldeb.

Beth yw Dad-drwyddedu?

3 At ddibenion y datganiad polisi hwn mae dad-drwyddedu yn golygu "terfynu'r cyfnod cyfrifoldeb o dan y Ddeddf Sefydliadau Niwclear". Diffinnir hyn yn adran 5(3) Deddf Sefydliadau Niwclear a dim ond pan fydd HSE yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i ddeiliaid y drwydded yn nodi, yn ei farn ef, "nad oes unrhyw berygl mwyach o ymbelydriadau ïoneiddio o unrhyw beth ar y safle, neu, yn ôl y galw, ar unrhyw ran o'r safle hwnnw ", y gall ddigwydd.

4 Cyn dad-drwyddedu unrhyw dir ar safleoedd niwclear, dylai HSE fodloni ei hun fod dad-drwyddedu (fel y'i dehonglir yn y datganiad polisi hwn) yn briodol ac na chynhelir gweithgareddau mwyach y mae angen trwydded ar eu cyfer ar y safle neu'r rhan o'r safle sydd i'w ddad-drwyddedu. Golyga hyn, ymysg pethau eraill, nad oes unrhyw wastraff ymbelydrol ar ôl ar y safle neu'r rhan o'r safle sydd i'w dad-drwyddedu.

Dim Perygl

5 Mae Adrannau 3(6)(b) a 5(3)(a) Deddf Sefydliadau Niwclear yn cynnwys gofyniad nad oes "dim perygl" ac "nad oes unrhyw berygl mwyach" o ymbelydriadau ïoneiddio o unrhyw beth ar y safle neu'r rhan honno o'r safle sydd o dan ystyriaeth ar gyfer ei dad-drwyddedu. Mae'r gofynion hyn yn gymwys i ryddhau deiliad y drwydded o'i gyfnod cyfrifoldeb o dan y Ddeddf Sefydliadau Niwclear. Fodd bynnag, nid yw asesu'r hyn sy'n gyfystyr â 'dim perygl' yn fater hawdd, yn enwedig os bu llygredd ymbelydrol ar y safle. Mae hyn oherwydd y tybir yn rhyngwladol fod perthynas niwed/dogn linellol ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio ac nad oes isafswm trothwy lle yr ystyrir bod dognau bach yn ddiogel. Fodd bynnag, mae pob deunydd yn cynnwys lefelau isel o ymbelydredd cefndir sy'n digwydd yn naturiol, ac felly, o'i

[1] Adrannau 3(6) a 5(3) Deddf Sefydliadau Niwclear 1965, fel y'i diwygiwyd.

ddehongli'n llythrennol, ni fyddai HSE byth yn gallu dad-drwyddedu unrhyw ran o safle. Mae'n rhaid mai bwriad y Senedd oedd y dylai safleoedd (neu rannau o safleoedd), o dan rai amgylchiadau fod yn gallu cael eu dad-drwyddedu.

Meini Prawf HSE ar gyfer Dim Perygl

6 Ym marn HSE, ni all gofyn i ddeiliad trwydded ddangos bod 'dim perygl' fod yn gyfystyr â gofyn i ddeiliad trwydded ddangos fod y safle yn 'gwbl ddiogel'. Ni ellid byth darparu sicrwydd mor absoliwt, waeth pa mor drylwyr y caiff safle ei lanhau a'i fonitro. I ni, mae'n awgrymu y gallai fod yn dderbyniol i berygl radiolegol bach ond cyfyngedig barhau, ar ôl terfynu gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer ar safle, ac yn dilyn gwaith dadlygru a glanhau trylwyr, ac y byddai canfod a lleihau hyn ymhellach yn gofyn am ymdrech a chostau anghymesurol. Fodd bynnag, byddai HSE yn gofyn i'r deiliad trwydded ddangos na fydd unrhyw berygl radiolegol sy'n weddill yn peri risg barhaus sylweddol i unrhyw un, waeth pa ddefnydd a wneir o'r safle, nac unrhyw beth sy'n weddill ar y safle, yn y dyfodol.

7 Gan ystyried arweiniad a gyhoeddwyd eisoes, mae HSE o'r farn y galli'r posibilrwydd o 1 farwolaeth mewn miliwn y flwyddyn (1 mewn 10^6/y flwyddyn) gael ei ystyried gan gymdeithas fel lefel o risg 'dderbyniol yn gyffredinol' i aelod cyffredin o'r cyhoedd. Felly, am resymau ymarferol, byddwn yn defnyddio'r maen prawf hwn fel y gofyniad lleiaf ar gyfer yr hyn a ystyriwn yn 'ddim perygl' at ddibenion 3(6)(b) a 5(3)(a) Deddf Sefydliadau Niwclear 1965. Yn ogystal, wrth ddehongli 'dim perygl', mae HSE yn ystyried y dylid ategu'r maen prawf hwn gan yr egwyddor Mor Isel ag sy'n Rhesymol Ymarferol. Wrth wneud cais ar gyfer dad-drwyddedu'r cyfan neu ran o'r safle, golyga hyn y dylai'r ymgeisydd ddangos ei fod ef/hi wedi cymryd bob cam rhesymol ymarferol i sicrhau bod y risg sy'n weddill yn llai nag 1 filiwn y flwyddyn. Ystyrir bod cymhwyso'r maen prawf risg 'dim perygl' a'r egwyddor uchod yn gyson â'r ymagwedd a amlinellwyd yng nghyhoeddiadau HSE 'Tolerability of Risk'[2] a 'Reducing Risks, Protecting People'[3].

8 Mae HSE yn ystyried bod cyfateb 'dim perygl' â'r meini prawf hyn yn ymagwedd ymarferol tuag at fodloni gofynion absoliwt ac amhosibl i'w cyflawni yn ymarferol y Ddeddf Sefydliadau Niwclear. Er mwyn rhoi'r risgiau gweddillol yr ydym yn eu hystyried yn y fan hyn mewn cyd-destun ehangach, dylid nodi mai'r amcangyfrif o risg o farwolaeth ar gyfartaledd o ymbelydredd sy'n digwydd yn naturiol yn y DU yw tua 1 mewn 10,000 y flwyddyn (1 mewn 10^4/y flwyddyn)[4].

Hysbysu am Benderfyniadau Dad-drwyddedu

9 Yn unol â pholisi HSE ar fod yn agored a chynnwys rhanddeiliaid, bydd HSE yn hysbysu rhanddeiliaid lleol am benderfyniadau mewn perthynas â dad-drwyddedu sefydliadau drwy gyfrwng cyfarfodydd ac adroddiadau arferol y Pwyllgorau Cyswllt Lleol [5].

---

[2] 'The Tolerability of Risk from Nuclear Power Stations' HSE 1988, ISBN 011 883982 8

[3] 'Reducing Risks, Protecting People', HSE 2001, ISBN 0-7176-2151-0

[4] Cyhoeddiad y Bwrdd Diogelwch Radiolegol Cenedlaethol "Living with Radiation", ISBN 0-85951-419-6, 1998. Noda hyn (Tudalen 24) bod y risg o farwolaeth flynyddol ar gyfartaledd yn y DU o bob ffynhonell o ymbelydredd ïoneiddio, gan gynnwys ymbelydredd meddygol a chefndirol, tua 1 mewn 7700.

[5] Mae HSE yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgorau Cyswllt Lleol fel rhan o'r ymrwymiad i ryddhau gwybodaeth i'r cyhoedd am weithgareddau arolygu a gweithgareddau rheoliadol sy'n ymwneud â

Crynodeb

10 I grynhoi, gofynion HSE ar gyfer sefydlu 'dim perygl' wrth ystyried cais i ddad-drwyddedu y cyfan neu ran o safle niwclear trwyddedig yw:

- Y gallu i ddangos y bydd unrhyw ymbelydredd sy'n weddill ar y safle, a allai fod wedi deillio o weithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer, yn arwain at risg o farwolaeth i unrhyw aelod o'r cyhoedd na fydd yn fwy nag 1 mewn miliwn y flwyddyn; a
- Cymhwyso'r egwyddor Mor Isel ag sy'n Rhesymol Ymarferol er mwyn sicrhau bod pob cam rhesymol ymarferol wedi ei gymryd i leihau'r risg weddillol o'r ymbelydredd sy'n weddill.

HSE

Ebrill 2004

safleoedd niwclear trwyddedig. Mae pwyllgor cyswllt gan bob safle niwclear trwyddedig mawr, a redir gan ddeiliad y drwydded, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, undebau llafur, grwpiau lleol â diddordeb a'r cyhoedd. Mae adroddiadau'r Pwyllgorau yn cael eu dosbarthu bob chwarter i aelodau'r pwyllgorau ac maent yn cwmpasu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio diogelwch ar y safleoedd. Mae Arolygwyr Safle Sefydliadau Niwclear HSE yn mynychu'r Pwyllgorau Cydgysylltu Lleol, yn cyflwyno adroddiadau ar unrhyw gamau rheoliadol a gymerir ac yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn hefyd ar wefan HSE (http://www.hse.gov.uk/nsd/index.htm#local).